dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

# Dweud eich Dweud

# Have your say

| Eich sylwadau | Gwnaethon ni |
|---|---|
| **Dywedodd rhai dysgwyr fod angen gwella'r llyfrau cwrs, gan fod rhai o'r deunyddiau wedi dyddio.** | Byddwn ni'n defnyddio llyfrau cwrs newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyrsiau Mynediad, Sylfaen ac Uwch yn 2019/20. Bydd y cwrs Canolradd newydd yn cael ei gyhoeddi erbyn Medi 2020.<br><br>Byddwn ni'n gwella'r wybodaeth i chi am y deunyddiau ar lein i gefnogi eich dysgu. |
| **Dywedoch chi eich bod chi eisiau rhagor o wybodaeth am adnoddau digidol ar-lein, a rhagor o ddefnydd o dechnoleg yn y dosbarth.** | ‘Dyn ni wedi newid rhai o'n lleoliadau dysgu ar gyfer 2019/20 er mwyn gwella'r mynediad i dechnoleg ac adnoddau dysgu digidol yn y dosbarth.<br><br>Byddwn ni'n cyhoeddi llawlyfr i ddysgwyr ym Medi 2019, a fydd yn cynnwys manylion am adnoddau ar-lein. |
| **Dywedoch chi eich bod chi eisiau rhagor o weithgareddau anffurfiol dros yr haf.** | 'Dyn ni'n rhoi cyfle i ddysgwyr Canolradd ac Uwch i baru gyda siaradwyr Cymraeg dros yr haf drwy gynllun Siarad. Cysylltwch â ni ar 0800 876 6975 neu dysgucymraeg@aber.ac.uk.<br><br>'Dyn ni'n trefnu rhaglen o weithgareddau dros yr haf, ac mae cyfle i ddysgwyr ymuno â gweithgareddau'r Cwrs Haf Dwys yn Aberystwyth. Mae manylion y gweithgareddau ar www.aber.ac.uk/cy/learn-welsh. |
| **Mae 95% o ddysgwyr yn mwynhau dysgu Cymraeg, ac yn dweud fod y tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol.** | 'Dyn ni'n parhau i ddatblygu sgiliau ein tiwtoriaid er mwyn darparu cyrsisau o'r radd flaenaf. |

CYMRAEG Dysgu Learn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government